



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Glanmorfa Care Home Ltd

**52-54 Station Road
Cydweli
SA17 4UR**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/02/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Glanmorfa Care Home Ltd

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Glanmorfa Care Home Ltd
Lleoedd cofrestredig	24
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	2 Tachwedd 2012
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus iawn â'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Dywedodd un person sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"I came here for respite but I like it so much here I decided to stay and that says it all"*. Caiff gweithwyr gofal eu tywys gan gynlluniau cyfredol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r holl staff yn adnabod y bobl yn dda a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cynnes a chyfeillgar. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"I love it here, it's not like work, I enjoy it so much. It's like a family environment more than a work one"*.

Mae'r bobl yn mwynhau treulio amser yn cymdeithasu yn yr ardaloedd cymunedol gwahanol, yn y gerddi neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Mae'r staff yn cefnogi'r bobl i barhau'n aelodau gweithgar o'u cymuned leol.

Mae cynrychiolwyr y bobl sy'n byw yng nghartref Glanmorfa yn gadarnhaol am y gwasanaeth a dywedodd un ohonynt wrthym *"we have always felt it's the right place because the staff are looking after him and he likes them all"*. Mae'r bobl, aelodau o'u teuluoedd a'r staff yn gwerthfawrogi Unigolyn Cyfrifol a rheolwyr y gwasanaeth ac maent yn ymddiried ynddynt ac yn teimlo'n hyderus amdanynt.

Llesiant

Mae'r bobl yn sôn yn gadarnhaol am y gwasanaeth a gânt. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolion. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Caiff y bobl eu parchu fel unigolion ac mae'r rhyngweithio rhyngddynt â'r tîm o staff yn gynnes a chyfeillgar. Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, sy'n golygu y gallant gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant.

Drwy brosesau recriwtio a hyfforddiant, gwneir yn siŵr bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth iawn gan weithwyr gofal medrus a gwybodus. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran codi pryderon yn llawn. Gall y bobl wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn y rheolwyr.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gartrefol. Mae sawl ardal gymunedol wahanol i'r bobl gymdeithasu ac i wneud yr hyn sy'n gwneud iddynt deimlo'n hapus. Gall yr ystafelloedd gwely gael eu personoli gan yr unigolion. Mae'r tir a'r gerddi yn hygyrch i'r bobl er mwyn iddynt wneud yr hyn y maent yn ei fwynhau, ac mae pwll hydrotherapi ar gael i'r bobl ei ddefnyddio i'w helpu i gadw mor iach â phosibl.

Mae'r prosesau llywodraethu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o archwiliadau mewnol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn rhan o'r prosesau ar gyfer rhedeg y cartref o ddydd i ddydd, ac mae'r bobl a'r staff yn siarad â'r unigolyn hwnnw am wella ansawdd y gwasanaeth. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiadau ymweliadau Rheoliad 73. Mae angen cwblhau Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn unol â Rheoliad 80 bob chwe mis yn hytrach na bob blwyddyn.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth unigol a gânt. Mae'r rhyngweithio yn hamddenol ac yn galonogol. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, *"The staff are first class, second to none, I couldn't ask for better"*. Mae cynrychiolwyr y bobl yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a dywedodd un ohonynt *"The staff are lovely and you can see that he likes them and they get along so well with him"*. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"The people who live here are so wonderful and we just try and do the best for them at all times"*.

Mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth a geir gan yr unigolyn, ei gynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol allanol. Mae gan y gwasanaeth gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n nodi sut y dylid darparu gofal a chymorth i'r unigolion. Dywedodd y bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff wrthym fod y rheolwr yn eu cynnwys wrth adolygu'r cynlluniau yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn berthnasol o hyd. Mae'r rheolwr yn bwriadu cynnal adolygiadau mwy cryno sy'n cofnodi adborth gan y bobl am y gwasanaeth a gânt. Mae'r nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a roddir a byddai'n ddefnyddiol iddynt gynnwys gwybodaeth fanwl o safbwynt yr unigolyn sy'n dangos effaith y gofal a'r cymorth a ddarperir. Gwelsom dystiolaeth dda yn y ddogfennaeth fod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud â'r bobl. Dywedodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wrthym *"Staff are welcoming, they will ask for advice and we have a good working relationship"*.

Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn y gwasanaeth, ar dir y gwasanaeth ac yn y gymuned leol. Mae'r bobl yn dewis ble i dreulio eu hamser a gallant ddefnyddio unrhyw un o'r ardaloedd cymunedol neu dreulio amser yn eu hystafelloedd eu hunain. Mae cydgysylltydd gweithgareddau penodedig yn gweithio gyda'r bobl i gynnal amrywiaeth o weithgareddau grŵp a gweithgareddau unigol sy'n diddanu'r bobl ac yn dod â'r bobl ynghyd. Gwelsom y bobl yn mwynhau chwarae gemau bwrdd a sgitls wedi'u haddasu, yn canu ac yn treulio amser yn siarad ac yn hel atgofion. Roedd dau berson yn chwarae drafftiau yn erbyn ei gilydd a dywedodd un wrthym *"This is a great laugh but he (gan bwyntio at berson arall) keeps on beating me"*. Soniodd cynrychiolydd wrthym am fuddiannau cadarnhaol y gweithgareddau a gynigir i'r bobl, gan ddweud *"she's involved in activities and loves the trips out. She does so much more at the home than she'd do with us"*

Mae'r staff yn gweithio fel tîm ac mae niferoedd digonol o weithwyr ar gael i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o ddewisiadau ac anghenion unigol y bobl ac maent yn sicrhau eu bod yn treulio amser gyda nhw.

Mae gan y darparwr bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r risg o heintiau. Ceir arferion hylendid da ym mhob rhan o'r gwasanaeth ac mae'r staff yn dilyn canllawiau diweddaraf lechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn darparu awyrgylch croesawgar. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cefnogi'r bobl yn unol â'u hanghenion a rhoddir lluniau o'r unigolion ar y drysau i'w helpu i ddod o hyd i'r ystafelloedd priodol. Gall y bobl ddefnyddio'r ardaloedd cymunedol gwahanol i gymdeithasu â'i gilydd neu i dreulio amser tawel ar eu pen eu hunain. Mae rhyddid gan y bobl i symud o amgylch y gwasanaeth fel y dymunant ac roeddent yn ymddangos yn gyfforddus ac yn gartrefol yn yr ardaloedd cymunedol. Mae'r bobl wedi personoli eu hystafelloedd unigol â'u lluniau, paentiadau, dodrefn a theledu cebl.

Caiff materion cynnal a chadw eu datrys yn brydlon ac mae'r tîm domestig yn ymroi i gadw'r adeilad yn lân ac yn ffres. Cwblheir archwiliadau lechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Tân ac mae'r trefniadau ar gyfer profi'r cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol.

Mae'r staff arlwygo yn cynnwys y bobl wrth gynllunio'r fwydlen ac maent yn gyfarwydd iawn â hoff bethau a chas bethau'r unigolion. Dywedodd gweithiwr wrthym *"There is a set menu but people can have what they ask for"*. Mae'r bobl yn dewis p'un a ydynt am fwyta gyda'i gilydd neu'n dawel ar eu pen eu hunain. Dywedodd un person wrthym *"The food is great and I have a shopping list every week and the girls (care workers) pick it up for me"*. Wrth drafod y prydau bwyd, dywedodd un aelod o deulu *"He loves his food and there's plenty of choice"*.

Mae mesurau COVID-19 ychwanegol ar waith oherwydd y lefel uchel o achosion yn yr ardal ar adeg yr arolygiad. Mae gorsafoedd diheintio ar gael ym mhob rhan o'r gwasanaeth ac mae gweithdrefn profi ar waith ar gyfer pob ymwelydd.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn rhan o'r broses o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, mae'n hawdd mynd ato ac mae'n adnabod y bobl a'r staff yn dda. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *"I've met [RI] a couple of times and he's very nice and explains what he does and always stops to chat"*. Mae'r gweithwyr gofal yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan yr Unigolyn Cyfrifol. Dywedodd un ohonynt wrthym *"[RI] is easy to talk to and we can ask for things and he gets them"*. Mae trefniadau ar waith i fonitro ac i wella'r gwasanaeth drwy adroddiadau ymweliadau Rheoliad 73 yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn defnyddio gwybodaeth o archwiliadau mewnol ac yn rhestru camau gweithredu ar gyfer gwella'r gwasanaeth, ond mae angen ei gwblhau bob chwe mis.

Mae pob aelod o'r staff yn gadarnhaol am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei arwain. Mae'n hawdd mynd at y rheolwyr ac maent yn cefnogi'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Dywedodd gweithiwr wrthym *"It's the best care service I've worked for. They are very professional and flexible and consider my circumstances"*. Mae'r rheolwyr yn gweithredu mewn ffordd ymarferol ac yn rhannu eu hamser rhwng gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl a chwblhau eu dyletswyddau gweinyddol. Mae'r bobl yn siarad yn agored â'r rheolwyr ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Mae'r cynrychiolwyr yn gwybod sut i godi pryderon os bydd angen a dywedodd un wrthym *"They [managers] couldn't be any better"*.

Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac mae'r staff yn eu deall. Mae'r gweithwyr gofal yn cael arfarniadau blynyddol ond caiff sesiynau goruchwyllo eu cwblhau bob chwe mis. Mae angen eu cwblhau bob tri mis a byddwn yn cadarnhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio yn ystod yr arolygiad nesaf. Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth dda o faterion diogelu ac maent yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogaeth cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon a'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae gweithdrefn sefydlu effeithiol a hyfforddiant parhaus yn sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion y bobl. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"The induction supported me to do the job"*.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod digon o staff gofal profiadol yn gweithio ar shifftiau i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r gweithwyr gofal wedi meithrin cydberthnasau da â'r bobl ac maent yn deall eu hanghenion unigol. Dywedodd un wrthym *"I love the residents, they are like family"*.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
16	Ni cheir tystiolaeth glir i ddangos bod cofnodion gofal yn cael eu hadolygu bob tri mis na bod y bobl neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn yr adolygiadau.	Cyflawnwyd
16	Ni cheir tystiolaeth glir bod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o adolygu cynlluniau gofal.	Cyflawnwyd
44	Roedd cynnyrch ymolchi wedi cael eu gadael mewn ystafell ymolchi gymunedol a gallai unrhyw un fod wedi eu camddefnyddio.	Cyflawnwyd

Dyddiad Cyhoeddi 03/03/2023